**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 22ain Ionawr 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas
Clerc: Denfer Morgan

**312 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr, Michelle Davies, Gary Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**313 Personol**

Estynwyd cydymdeimlad yr Aelodau gyda'r Cynghorwyr Michelle Davies ac Eirlys James-Evans yn eu colled diweddar.

**314 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11fed Rhagfyr 2025**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11fed Rhagfyr 2025.

**315 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Nodwyd ni dderbyniwyd gwybodaeth diweddar gan y Cyngor Sir ynghylch yr archwiliadau i'r datblygiadau yn Glanbran, Cilcennin a Preswylfa, Ciliau Aeron.

**316 Cyllideb, Praesept a Threth Cyngor 2026-27**

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r gyllideb drafft a gyflwynwyd gan y Clerc. Nodwyd yn enwedig yr oedi yn y pryniant o'r tir ar gyfer estyniad I'r fynwent yng Nghilcennin a'r angen am ddiogelu swm digonol i gwrdd â'r gost yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD:**

i) cymeradwyo cyllideb yn y swm o £15,870;
ii) cymeradwyo praesept yn y swm o £15,870; a
iii) gosod Treth Gyngor o £26.13 i eiddo Band D.

**317 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Nodwyd and oedd rhagor o wybodaeth wedi ei dderbyn gan Awdurdodau'r Eglwys ynghylch eu harchwiliadau am dystiolaeth o'u perchnogaeth o'r tir.

**318 Adolygiad Cymunedol Ceredigion**

Nodwyd y byddai'r Clerc yn cynrychioli'r Cyngor mewn webinar a drefnwyd gan Un Llais Cymru.

**319 Menter Tafarn y Vale**

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol Menter Tafarn y Vale ar 5ed Chwefror 2026.

**320 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

- sawl digwyddiad o gerbydau yn gadael y ffordd ar y tro ar y B4339 ger yr Eglwys
- coeden wedi cwympo ac yn rhwystro darn o lwybr troed 45/334

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20pm